SEMESTER DAU 2025-2026

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

ADRAN GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL

GW20120 Cysylltiadau Rhyngwladol: Safbwyntiau a Thrafodaethau

Amser a ganiateir: **2 AWR**

Atebwch DDAU gwestiwn, UN cwestiwn o bob adran

Peidiwch â dyblygu deunydd a gyflwynwyd eisoes.

GALL MYFYRWYR GYFLWYNO ATEBION I'R PAPUR HWN YN Y GYMRAEG NEU'R SAESNEG.

Ar ôl eistedd, caiff myfyrwyr lenwi blaenddalen y llyfryn ateb a'r ddalen bresenoldeb

PEIDIWCH Â THROI'R PAPUR CWESTIYNAU ARHOLIAD DROSODD TAN EICH BOD WEDI CAEL CYFARWYDDYD I WNEUD HYNNY.

ADRAN 1 Atebwch **UN** o'r cwestiynau canlynol:

1. 'Mae cyflwr anarchiaeth yn atal cydweithredu ystyrlon a fyddai'n hirdymor mewn gwleidyddiaeth ryngwladol.' Trafodwch ddilysrwydd y datganiad hwn mewn perthynas â DWY o'r damcaniaethau canlynol: neorealaeth, sefydliadaeth neoryddfrydol, yr Ysgol Seisnig neu luniadaeth.
2. Sut a pham mae damcaniaethau Cysylltiadau Rhyngwladol yn anghytuno ar arwyddocâd y wladwriaeth fel actor mewn gwleidyddiaeth ryngwladol? Trafodwch gan gyfeirio at o leiaf DAU berspectif damcaniaethol.
3. 'Nid materol yn unig yw grym mewn gwleidyddiaeth ryngwladol, mae hefyd yn cael ei adlewyrchu yn ein syniadau.' Trafodwch gan gyfeirio at o leiaf DAU berspectif damcaniaethol.
4. 'Ni ddylai damcaniaeth Cysylltiadau Rhyngwladol fod yn anelu at egluro gwleidyddiaeth ryngwladol ond yn hytrach ei beirniadu a'i newid.' Trafodwch ddilysrwydd ac arwyddocâd y datganiad hwn.
5. 'Mae holl ddamcaniaethau Cysylltiadau Rhyngwladol yn ddamcaniaeth normadol.' Trafodwch ddilysrwydd ac arwyddocâd y datganiad hwn.

ADRAN 2 Atebwch **UN** o'r cwestiynau canlynol:

1. Pam mae gennym ni gynifer o ddamcaniaethau am Gysylltiadau Rhyngwladol. Oes eu hangen nhw i gyd arnon ni?
2. Pa safbwynt damcaniaethol sy'n egluro gwleidyddiaeth ryngwladol heddiw orau a pham? Trafodwch y rhesymau dros eich dewis o ddamcaniaeth gan gyfeirio at, o leiaf, un mater neu ddigwyddiad mewn gwleidyddiaeth ryngwladol gyfoes.
3. 'Allwn ni ddim seilio gwybodaeth am wleidyddiaeth rhyngwladol mewn gwirioneddau gwrthrychol.' Trafodwch ddilysrwydd ac arwyddocâd y datganiad hwn.
4. Ddylai damcaniaethwyr Cysylltiadau Rhyngwladol geisio dylanwadu ar arferion polisi tramor gwladwriaethau?
5. Pa mor ddefnyddiol yw'r damcaniaethau Cysylltiadau Rhyngwladol a astudiwyd ar y modiwl hwn i ddadansoddi heriau gwleidyddiaeth ryngwladol y dyfodol?

Trowch drosodd os hoffech weld fersiynau Saesneg o'r cwestiynau arholiad.

1. ‘The condition of anarchy prevents meaningful and long-lasting co-operation in international politics.’ Discuss the validity of the statement with reference to TWO of the following theoretical perspectives: neorealism, neoliberal institutionalism, English School or constructivism.
2. How and why do IR theories disagree on the significance of the state as an actor in international politics? Discuss with reference to at least TWO theoretical perspectives.
3. ‘Power in international politics is not just material, it is also reflected in the ideas we hold.’ Discuss with reference to at least TWO theoretical perspectives.
4. ‘The aim of IR theory should not be to explain international politics, but to critique and change it’. Discuss the validity and significance of the statement
5. ‘All IR theory is normative theory.’ Discuss the validity and significance of the statement

SECTION B Answer **ONE** of the following questions

1. Why do we have so many theories in International Relations? Do we need them all?
2. Which theoretical approach best explains international politics today and why? Discuss the reasons for your theory choice in reference, at least, to one issue or event in contemporary international politics.
3. ‘We cannot ground the knowledge of international politics on objective truths’. Discuss the validity and significance of the statement.
4. Should IR theorists seek to influence the foreign policy practice of states?
5. How useful are the IR theories examined on this module for analysis of future challenges of international politics?

END OF PAPER